

gwarchodfa natur leol

Y GLYN | FAIRY GLEN

local nature reserve

ehangwch eich gorwelion...
broaden your horizons...



CYFLWYNIAD

Cafodd Y Glyn ac Afon Colwyn eu crybwyll gan y teithiwr, Edward Llwyd, yn 1699. Disgrifiodd yr ardal fel un â saith ffynnon ac yn ardal a oedd bron yn gwbl goeddiog. Cewch chithau ddilyn yn ei olion a mwynhau y goedwig heddychlon hon, ar hyd Afon Colwyn, drwy roi cynnig ar y teithiau cerdded a ddisgrifir yn y daflen hon. Caiff Y Glyn ei reoli gan Wasanaeth Cefn Gwlad Conwy fel Gwarchodfa Natur Leol. Gobeithiwn y mwynhewch eich ymweliad.

SUT YDW I'N MYND YNO?

Ar drên/bws: Ffôn Traveline Cymru: 0871 200 2233
www.traveline-cymru.info

Mae'r map yn dangos sut i gyrraedd y safle. Mae bysiau yn rhedeg o'r orsaf dren i Hen Golwyn. Mae arhosfanau bws ar Ffordd Abergele, Ffordd Coed Coch a Ffordd Llanelian.

Efo car: Dilynwch yr A55 i gyffordd 22 i Hen Golwyn. Gweler y map am sut i gyrraedd y safle.

RHAGOR O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY

Am ragor o wybodaeth a thafleenni ar amrywiaeth o deithiau cerdded ewch i: www.conwy.gov.uk/countryside

E-bost: cg.cs@conwy.gov.uk
Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy:
Ffôn: 01492 575200/575290

INTRODUCTION

Fairy Glen and the River Colwyn were both mentioned by the traveller Edward Llwyd in 1699. He described the area as having seven wells and being almost completely wooded. You can follow in his footsteps and enjoy this peaceful woodland, along the River Colwyn, by trying the walking routes illustrated within this leaflet. Fairy Glen is managed by Conwy Countryside Service as a Local Nature Reserve. We hope you enjoy your visit.

HOW DO I GET THERE?

By train/bus: Tel. Traveline Wales: 0871 200 2233
www.traveline-cymru.info


See the map for how to reach the site. Buses run from the railway station to Old Colwyn. There are bus stops on Abergele Rd, Coed Coch Rd and Llanelian Rd.


By car: Follow the A55 to junction 22 for Old Colwyn. See the map for how to reach the site.

MORE WALKS IN CONWY

For information and leaflets on a variety of walks visit: www.conwy.gov.uk/countryside

Email: cg.cs@conwy.gov.uk
Conwy Countryside Service:
Tel: 01492 575200/575290





Dilynwch Y Còd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

Please follow The Countryside Code
Respect • Protect • Enjoy

Rhoddir trwydded ddrymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd parti; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Conwy County Borough Council makes it available;

You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form; and Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.

HANES DIWEDDAR

☞ Yn 1903, cafodd tir o'r enw'r 'Dingle', a oedd yn rhan o goetir hynafol ac a fu'n fan geni Colwyn, ei roi fel anrheg i'r Cyngor i'w ddefnyddio gan y cyhoedd am byth. Cafodd ei enwi'n 'Fairy Glen' a'i agor yn swyddogol yn 1904. Roedd band yno'n chwarae a cherddodd torfeydd o bobl trwy'r glyn coediog hardd. Buont yn edrych ar y gwelyau rhosod a llwyni a oedd newydd eu plannu, y pomprenni a'r llwybrau, ffrwd y felin, rhaeadr ddisglair a'r elyrch ar y llyn addurnol gerllaw (hen bwll y felin).

Daeth y glyn yn boblogaidd efo pobl leol ac ymwelwyr, ac roedd gan y pentref hyd yn oed fws bychan ei hunan efo 'Fairy Glen' ar ei ben blaen. Yn ystod yr haf, byddai plant lleol yn dod i'r glyn gan obeithio ennill arian poced trwy ddiddanu ymwelwyr efo caneuon Cymreig neu drwy werthu poteli o ddŵr oer o ffynnon Ddôl Ddu, a bwndeli o redyn wedi'u lapio mewn papur arian.

Cafodd y glyn ei gynnal yn dda hyd at y 1970'au ac wedyn dechreuodd ddychwelyd i'w gyflwr naturiol. Dechreuwyd ar gynllun i'w adfer i'w gyflwr gwreiddiol yn 1998/9 ac erbyn hyn gall pawb sy'n dod yma fwynhau ei bydfferthwch unwaith eto.



Elyrch ar bwll y felin ym Mhen y Bryn oddeutu 1920. Draeniwyd y pwll ym 1932
Swans on the mill pond at Pen y Bryn c. 1920. The pond was drained in 1932

RECENT HISTORY

☞ In 1903, the Dingle, part of an ancient woodland and the birthplace of Colwyn, was gifted to the Council for the use of the public forever. It was renamed the Fairy Glen and officially opened in 1904. A band played and crowds of spectators walked through the picturesque wooded glen. They admired the newly planted rosebeds and shrubs, the rustic bridges and paths, the millrace, sparkling waterfall and swans on the ornamental pond nearby (originally the mill pond).

The Glen soon became popular with locals and holiday makers and the village even had its own little bus with Fairy Glen on the front. During the summer local children would hang around the glen hoping to earn pocket money by entertaining visitors with Welsh songs, or by selling bottles of icy water from the spring at Ddol Ddu and bundles of ferns wrapped in silver paper.

Fairy Glen was well maintained until the 1970's after which it began to revert to its natural state. A scheme was put in hand in 1998/9 to restore the valley to its former glory, and once again the beauty of the Fairy Glen can be enjoyed by all who visit here.



Ymwelwyr yn mwynhau'r glyn yn gynnar yn ystod y ganrif ddiwethaf
Visitors enjoying the Fairy Glen early in the last century



BYWYD GWYLLT

☞ Mae'r dyffryn cysgodol hwn, efo'i ffrwd esmwyth a'i lethrau llaith mewn cysgod rhag yr haul, yn lle heddychlon i ymweld ag o ac yn hafan i fywyd gwylt. Mae'r coetir clauer llaith, yn cynnal amrywiaeth o goed megis coed derw, onnen, masarnen a choed gwern, ynghyd â phrysgwydd fel coed cyll a chelyn. Mae'r amodau tyfu'n ddelfrydol ar gyfer llawer math o redyn. Bydd rhedyn yn tyfu'n arbennig o dda lle mae'n llaith - o amgylch y ffrwd, y peirianwaith rheoli dŵr a'r rhaeadr. Lawr wrth y bont waelod fe welwch larwydden a phisgwydden tal a blannwyd yn nyddiau cynnar y parc.

WILDLIFE

☞ This sheltered valley, with its damp shady slopes and gentle stream, is a peaceful place to visit and a haven for wildlife. The cool, moist woodland has a variety of trees including oak, ash, sycamore and alder together with shrubs such as hazel and holly. This provides the ideal growing conditions for many varieties of ferns. Ferns grow especially well where it is damp - around the stream, sluice and waterfall. Down by the bottom bridge you will see tall larch and limes that were planted in the early days of the park.

BYWYD GWYLLT


Mae'r goedwig ar ei orau yn y gwanwyn ac ar lawr y goedwig mae clychau'r gog, fioledau a blodyn y gwynt yn tyfu ymysg gwelyau o graf gwyllt. Efallai y gallwch arogl i'r craff gwyllt, efo'i ddail hirgrwn sgleiniog a phen o flodau gwynion siap seren, ymhell cyn i chi ei weld. Mae'r gymysgedd o goetir a llefydd agored a thir efo llwyni yn gynefin delfrydol ar gyfer llawer o adar coetir.

Sefwch yn dawel ac efallai y gwelwch ac y clywch y fronfraith, y fwyalchen, robin goch, y titwod a'r dryw. Wrth y ffrwd, chwiliwch am y siglen lwyd wrth iddi fynd o graig i graig i ddal pryfed i fwydo ei chywion. Os byddwch yn lwcus, efallai y cewch gipolwg ar fronwen y dŵr wrth iddo hedfan ar hyd y ffrwd. Min nos, bydd y dylluan yn hwttian a'r ystumod yn hela am bryfed o dan y ganopi canghennau'r coed. Mae gwerth Y Glyn i fywyd gwyllt ac i'r gymuned lleol wedi ei gydnabod trwy ei ddynodiad fel Gwarchodfa Natur Leol.

WILDLIFE

The wood is at its best in spring and on the woodland floor bluebells, violets and wood anemone grow amongst banks of wild garlic. You may smell the garlic, with its glossy oval leaves and head of white, star shaped flowers, long before you see it. The mosaic of woodland with clearings and areas of scrub is the ideal habitat for many woodland birds.

Stand quietly and you may see and hear song thrushes, blackbirds, robins, tits and wrens. Near the stream look out for grey wagtails as they flit from rock to rock catching insects to feed their young. If you are lucky you may glimpse the dipper as it flies along the stream. In the evening, tawny owls hoot and bats hunt for insects beneath the tree canopy. Fairy Glen's value for wildlife and to the local community has been recognised through its designation as a Local Nature Reserve.



Diolch i: WREN, Gronfa Amgylcheddol Hanson, Chyngor Tref Bae Colwyn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Ymddiriedolaeth y Tywysog-Cymru, Sefydliad Amgylcheddol Hen Golwyn, Alan Wagstaff a Elizabeth Gleave.

Thanks are due to: WREN, Hanson Environment Fund, Cydcoed, Small Woods Association, Bay of Colwyn Town Council, Conwy County Borough Council, Prince's Trust-Cymru, Old Colwyn Environment Federation, Alan Wagstaff and Elizabeth Gleave.